

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol Drafft ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

Eich enw: Gwenith Price

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg

E-bost / rhif ffôn: post@cyg-wlc.cymru

Eich cyfeiriad: Comisiynydd y Gymraeg, Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1AT

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ganllawiau statudol drafft ar gyfer cynghorau cymuned a thref.

Cwestiynau

1. Yn gyffredinol, a yw strwythur a chwmpas y canllawiau'n cael eu cyflwyno'n glir ac mewn ffordd sy'n ymarferol i gynghorau cymuned a thref?

Dim sylw.

Pennod 1

2. A yw Pennod 1 yn darparu canllawiau digonol a phriodol ar yr amodau cymhwysedd ar gyfer arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol? A yw'n glir o ran sut y dylid defnyddio pŵer cymhwysedd cyffredinol? Pa wybodaeth ychwanegol fyddai o gymorth?

Trafodir yr amodau y mae'n rhaid i gynghorau cymuned eu bodloni er mwyn bod yn gynghorau cymuned cymwys ac arfer y pŵer cyffredinol. Mae un o'r amodau yn ymwneud â chymhwyster clerc y cyngor. Cyfeirir at fodiwl y mae'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn ei ddarparu. Yn y cyd-destun hwnnw, hoffem gyfeirio at ein hymateb ym mis Medi 2021 i ymgynghoriad y Llywodraeth ar Reoliadau cymwysterau clercod cynghorau cymuned. Gwnaethom annog y Llywodraeth i drafod â'r Gymdeithas sut i sicrhau dealltwriaeth clercod o statws a sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru, gan gynnwys:

- statws swyddogol yr iaith Gymraeg yng Nghymru yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a sefyllfa'r Gymraeg fel iaith a siaredir ym mhob cymuned yn y wlad
- gweinyddu dwyieithog
- cynlluniau iaith Gymraeg (sydd gan nifer o gynghorau cymuned)
- safonau'r Gymraeg sy'n deillio o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (er nad yw'r cynghorau cymuned yn ddarostyngedig iddynt, mae'r safonau yn berthnasol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru)

Yn y crynodeb o'r ymateb i'r ymgynghoriad, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021, eglurodd y Llywodraeth ei fod wedi darganfod nad oedd cefnogaeth ddwyieithog lawn ar gael ar gyfer pob agwedd ar y cwrs Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cyngorau Lleol (CiLCA), y bydd y modiwl arfaethedig yn rhan ohono. Nododd y byddai'r ddarpariaeth Gymraeg yn gyfartal â'r ddarpariaeth Saesneg o fis Mai 2022 ymlaen. Rydym yn falch fod y Llywodraeth wedi mynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos ei bod wedi ymateb i'n sylwadau ar gynnwys yr hyfforddiant. Anogwn y Llywodraeth eto i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo dealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg trwy'r hyfforddiant newydd a ddarperir ar gyfer clerod cyngorau cymuned.

3. Pa wybodaeth ychwanegol fyddai o gymorth i ddangos neu egluro sut y gellid cymhwyso'r pŵer cymhwysedd cyffredinol i gynghorau cymuned? A oes gennych unrhyw astudiaethau achos a allai gefnogi hyn?

Dim sylw.

Pennod 2 a 3

4. A yw Penodau 2 a 3 yn darparu canllawiau digonol a phriodol ar y gofynion sy'n ymwneud â chyfarfodydd aml-leoliad a sut y gall y cyhoedd gymryd rhan yng nghyfarfodydd y cyngor?

Nid yw'r penodau hyn yn trafod iaith cyfarfodydd. Ym Mhennod 2 anogwn y Llywodraeth i gyfeirio at bwysigrwydd hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn yr adran 'Beth ddylai'r trefniadau ei ystyried'. Dylid annog a galluogi y rhai sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg i wneud hynny mewn cyfarfodydd cynghorau cymuned, gyda chymorth cyfieithu ar y pryd ar y gyfer unrhyw un nad yw'n deall Cymraeg.

Rydym yn ymwybodol o achosion lle mae cynghorau oedd yn arfer cynnal eu cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg wedi troi at y Saesneg oherwydd bod aelod di-Gymraeg wedi ymuno ac na ddarparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Dylid cynnwys y Gymraeg yn y cyfeiriad at ddefnyddio technoleg i hwyluso cyfarfodydd aml-leoliad, gan bod technoleg cyfieithu ar y pryd yn berthnasol i'r ystyriaeth hon hefyd.

Dylai Pennod 3 drafod sut y gellid annog cynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i gymryd rhan mewn cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg, os dymunant wneud hynny. Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi cyngor perthnasol i'r sefyllfaoedd hyn, *Drafftio dwyieithog, cyfieithu a defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb*¹ a *Cynnal cyfarfodydd fideo dwyieithog*².

¹ [drafftio-dwyieithog-cyfieithu-a-chyfieithu-ar-y-pryd.pdf \(comisiynyddygymraeg.cymru\)](#)

² [Cynnal cyfarfodydd fideo dwyieithog \(comisiynyddygymraeg.cymru\)](#)

Pennod 4

5. A yw Pennod 4 yn darparu canllawiau digonol a phriodol ar gyflawni'r ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi adroddiadau blynyddol? Pa wybodaeth benodol ychwanegol fyddai o gymorth?

Nid yw Pennod 4 yn trafod iaith adroddiadau blynyddol. Mae rhai cynghorau cymuned sydd â chynllun iaith Gymraeg wedi ymrwymo i gyhoeddi deunydd a anelir at y cyhoedd yn Gymraeg. Mae dyletswydd statudol ar y cynghorau cymuned hynny felly i gyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol yn Gymraeg a dylid cyfeirio at y ddyletswydd honno yn y canllawiau. Yn ogystal, dylid annog y cynghorau cymuned hynny nad ydynt wedi mabwysiadu cynllun iaith Gymraeg i gyhoeddi eu hadroddiadau yn Gymraeg er mwyn darparu dewis iaith i'r rhai sy'n awyddus i ddysgu am eu gwaith.

Pennod 5

6. A yw Pennod 5 yn darparu canllawiau digonol a phriodol ar gyflawni'r ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi cynlluniau hyfforddi? Pa wybodaeth ychwanegol fyddai o gymorth?

Gweler ein hymateb i Gwestiwn 2 uchod.

Dylai cynghorau cymuned sydd â chynlluniau iaith Gymraeg fod â chynlluniau hyfforddi sy'n sicrhau fod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni ymrwymadau statudol y cynllun iaith. Dylid annog cynghorau cymuned i ystyried hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r angen i ddatblygu sgiliau Cymraeg eu cynghorwyr a'u clerod. Nodir bod y Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Hyfforddiant ar gyfer y sector cynghorau cymuned a thref yn diweddarau ei strategaeth ar sicrhau bod digon o hyfforddiant ar gael i gynghorau, gan gynnwys gwybodaeth am gyrsiau a deunyddiau cymorth. Dylai'r Llywodraeth sicrhau fod y strategaeth hon yn ystyried y Gymraeg.

7. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Nid yw'r canllawiau yn cyfeirio at y Gymraeg ac ystyriwn eu bod felly yn colli cyfle i gael effaith gadarnhaol ar yr iaith ac ar gyfleoedd i bobl ei defnyddio. Dylid eu diwygio i gynnwys cyfarwyddyd ynghylch y defnydd o'r Gymraeg, a dylai'r cyfarwyddyd hwnnw fod â'r un statws â gweddill y ddogfen. Dylai'r cyfarwyddyd hwnnw gynnwys y Gymraeg yn y cyd-destunau canlynol:

- cynnal cyfarfodydd yn Gymraeg
- adroddiadau blynyddol Cymraeg
- hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg
- hyfforddiant sgiliau Cymraeg

8. Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gall y canllawiau arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau positif neu gynyddu effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gweler ein hymateb i Gwestiwn 7 uchod.

9. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Nid oes cwestiwn am Bennod 6 ond hoffem nodi bod rhai cynghorau cymuned sydd â chynllun iaith Gymraeg wedi ymrwmo i gyhoeddi hysbysiadau cyfarfodydd a chofnodion yn Gymraeg. Mae dyletswydd statudol ar y cynghorau cymuned hynny felly i gyhoeddi'r dogfennau hynny yn Gymraeg a dylid cyfeirio at y ddyletswydd honno yn y canllawiau. Yn ogystal, dylid annog y cynghorau cymuned hynny nad ydynt wedi mabwysiadu cynllun iaith Gymraeg i gyhoeddi hysbysiadau a thrafodion eu cyfarfodydd yn Gymraeg.

Hoffem gyfeirio at ein hymateb ym mis Mehefin 2021 i ymgynghoriad y Llywodraeth ar Bwerau Awdurdodau Lleol i fasnachu. Gwnaethom nodi nad yw'r cynghorau cymuned yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg (er eu bod yn agored i hynny). Mae gan rai ohonynt gynllun iaith Gymraeg ond ar hyn o bryd maent yn amrywio yn y ffordd y maent yn ymdrin â'r Gymraeg. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cyfeirio'n briodol at y Gymraeg yn y canllawiau statudol arfaethedig. Dylid pwysleisio bod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac wedi cyflwyno'r egwyddorion na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a bod gan bobl sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg ryddid i wneud hynny gyda'i gilydd.

Dylid tynnu sylw hefyd at strategaeth *Cymraeg 2050* a gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg a chynnydd o ddeg y cant yn y ganran o bobl sy'n ei siarad yn ddyddiol. Fel y noda'r strategaeth, 'Rhaid mynd ati'n rhagweithiol i gynnig cyfleoedd a gwasanaethau Cymraeg, fel nad oes yn rhaid i'r unigolyn ofyn am y Gymraeg. Yn y pen draw, y weledigaeth yw bod pobl yn ei defnyddio ar bob cyfle, a bod y cyfleoedd ar gael ym mhob man.'